# Adolygiad Effaith Blynyddol
# Menter ac Entrepreneuriaeth
# 2023/24

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) yn parhau i hyrwyddo menter ac entrepreneuriaeth wrth wraidd ei chenhadaeth. Trwy gymorth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF) MEDR a chyllid Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru, mae PCYDDS yn sbarduno effaith ystyrlon i fyfyrwyr, graddedigion a'r gymuned ehangach.

Trwy roi i'n dysgwyr sgiliau entrepreneuraidd, hyder a chyfleoedd, rydyn ni'n adeiladu ecosystem lwyddiannus lle gall mentrau newydd a busnesau newydd ffynnu. O weithdai integredig gyda'r cwricwlwm a sgyrsiau ysbrydoledig i gyn-fyfyrwyr, grantiau, cyrsiau busnes a rhai llawrydd a chymorth fesul un wedi'i deilwra, mae PCYDDS yn sicrhau bod myfyrwyr a graddedigion nid yn unig yn cael eu paratoi ar gyfer llwyddiant busnes ond hefyd yn cael eu hysbrydoli i arloesi ac arwain.

Mae'r mentrau hyn, a ddarperir drwy'r Tîm Menter, yn cryfhau cyflogadwyedd myfyrwyr, yn tanio twf economaidd rhanbarthol, ac yn adlewyrchu gweledigaeth strategol feiddgar PCYDDS — i rymuso'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid a gwneuthurwyr newid.

Cenhadaeth PCYDDS yw "**Trawsnewid Addysg; Trawsnewid Bywydau"**



# Uchafbwyntiau

## PCYDDS ar frig y tabl ar gyfer cynorthwyo busnesau newydd i raddedigion

PCYDDS yw'r sefydliad addysg uwch sy'n perfformio orau yn y DU ar gyfer helpu busnesau newydd i raddedigion sy'n dal i fod yn weithredol ar ôl tair blynedd. Mae ffigurau o Arolwg Rhyngweithio Busnes a Chymunedau Addysg Uwch (HE-BCI) 2022/23 yn dangos bod PCYDDS yn y safle cyntaf allan o 220 o brifysgolion ledled y DU ar gyfer busnesau newydd i raddedigion sy'n dal i fod yn weithredol ar ôl 3 blynedd (894) ac mae hefyd wedi sicrhau'r wobr gyntaf am nifer y busnesau gweithredol (1,056).

Mae'r safle diweddaraf hwn yn un o fri ac yn tynnu sylw nid yn unig at y cymorth cychwynnol y mae myfyrwyr yn ei dderbyn ond y perthnasoedd parhaus sy'n cael eu meithrin rhwng cyn-fyfyrwyr, myfyrwyr presennol a staff y Brifysgol. Mae graddedigion entrepreneuraidd PCYDDS, sy'n arweinwyr yn eu priod feysydd, yn rhannu eu harbenigedd a'u profiadau yn hael, gan greu rhwydwaith bywiog, cefnogol sy'n sbarduno dysgu a llwyddiant parhaus.

"Mae'r ffigurau diweddaraf yn fwy na niferoedd yn unig; maen nhw'n adlewyrchu calon ac enaid ein cymuned," meddai'r Athro Kathryn Penaluna, Athro Addysg Menter, Pennaeth Menter, a Chyfarwyddwr yr Athrofa Ryngwladol er Datblygiad Entrepreneuraidd Creadigol (IICED) yn PCYDDS. "Nid yw ein darlithwyr ymroddedig a'n timau proffesiynol yn lansio busnesau newydd yn unig; maen nhw'n cymryd rhan mewn perthnasoedd gydol oes â'n graddedigion. Mae'r cysylltiadau parhaol hyn nid yn unig yn helpu busnesau newydd i ffynnu ond hefyd yn dod â chanfyddiadau amhrisiadwy o'r byd go iawn yn ôl i'n hystafelloedd dosbarth.

"Rydyn ni'n hynod falch o'n cyn-fyfyrwyr, sy'n cyfrannu'n sylweddol i'r brifysgol a'r gymuned fusnes ehangach. A dros 1,000 o entrepreneuriaid llwyddiannus yn gysylltiedig â PCYDDS, mae eu parodrwydd i roi yn ôl a chefnogi'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr busnes yn wirioneddol ysbrydoledig.

## Matrics Arloesi



Canolfan newydd PCYDDS ar gyfer arloesi digidol a menter yn Abertawe ar ei Champws SA1.

Mae'r Matrics Arloesi 2,200 metr sgwâr wedi'i leoli ochr yn ochr ag adeiladau presennol y Brifysgol yn IQ a'r Fforwm. Mae'n cynnig cyfle unigryw i fusnesau gysylltu trwy gydleoli mewn lle o ansawdd uchel ac i fod yn bartner â PCYDDS.

Caiff busnesau presennol sy'n chwilio am dwf yn ogystal â busnesau newydd deinamig fanteisio ar gyfleusterau blaengar PCYDDS yn ogystal â chymorth technegol arbenigol i helpu i gyflymu datblygu cynnyrch newydd.

Bydd lle Deori ar gael i fyfyrwyr a graddedigion diweddar PCYDDS ddechrau eu busnesau gyda chymorth y Tîm Menter a chymuned ehangach PCYDDS.

Meddai'r Athro Elwen Evans, KC, Is-Ganghellor PCYDDS: "Mae'r Matrics Arloesi eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar economi'r rhanbarth, ac rwy'n falch iawn bod cymaint o fusnesau lleol wedi gallu gweithio gyda Kier i'w adeiladu. Nawr rydyn ni'n edrych ymlaen at groesawu busnesau newydd a rhai sy'n bodoli ers tro i gydleoli a chydweithio â'r Brifysgol yn yr adeilad eithriadol hwn i ddod â rhagor o fanteision economaidd a chymdeithasol i Gymru."

## Gwobrau INSPIRE





Un o uchafbwyntiau calendr y brifysgol oedd seremoni Gwobrau INSPIRE, gan ddod â myfyrwyr, staff, partneriaid diwydiant, ac aelodau'r gymuned ehangach at ei gilydd i ddathlu a chydnabod rhagoriaeth mewn ymchwil, arloesi, menter, ymgysylltu dinesig a diwydiant.

Un o'r enillwyr oedd Nikola Chakrakchiev gyda chymorth ac arweiniad gan Dîm Menter PCYDDS a ddechreuodd ei fusnesau ei hun, gan ddangos creadigrwydd, gwreiddioldeb ac effaith eithriadol. Dechreuodd Nikola asiantaeth recriwtio, Fortisan Recruitment Solutions, ar ffurf Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC) cyfyngedig gan gyfranddaliadau gydag allbynnau elusennol i helpu ffoaduriaid Wcráin.

## Grant Entrepreneuriaeth Cronfa'r Dyfodol




Mynediad at gyllid yw un o'r rhwystrau mwyaf cyffredin sy'n wynebu unigolion sydd â'r uchelgais i ddechrau busnes. Mae PCYDDS yn mynd i'r afael â'r her hon drwy ddarparu grantiau cychwyn o £500, gan roi'r cymorth hanfodol y mae ei angen ar fyfyrwyr a graddedigion diweddar i roi syniadau ar waith.

Mae'r cyllid hwn yn darparu sbardun i entrepreneuriaid dalu costau hanfodol megis cofrestru busnes, datblygu prototeip, creu gwefan, neu brynu offer - camau ymarferol sy'n symud cysyniad yn nes at ddod yn fusnes hyfyw. Trwy gael gwared ar y baich ariannol uniongyrchol, mae'r grantiau hyn yn caniatáu i entrepreneuriaid uchelgeisiol ganolbwyntio ar adeiladu eu syniadau'n hyderus.

Mae'r effaith yn ymestyn y tu hwnt i'r unigolyn. Mae grantiau cychwynnol yn ehangu cyfranogiad trwy alluogi pobl o bob cefndir i gael mynediad at gyfleoedd entrepreneuraidd, gan sicrhau nad yw amgylchiadau personol yn cyfyngu ar arloesedd. Mae busnesau a gefnogir yn y modd hwn yn fwy tebygol o dyfu, creu swyddi, a chyfrannu at ddatblygiad economaidd rhanbarthol.

Trwy ei grantiau o £500 (cyhoeddwyd 14), nid yn unig yn buddsoddi mewn mentrau newydd y mae PCYDDS, ond hefyd yn ffyniant cymunedau yn y dyfodol. Mae'r cymorth hwn wedi'i dargedu ac yn cryfhau cyflogadwyedd myfyrwyr a graddedigion, yn meithrin arloesedd, ac yn pwysleisio rôl a gwerth y Brifysgol i'r rhanbarthau y mae'n eu cynrychioli.

## Arwerthiant Not So Festive - Cyfleoedd Masnachu Prawf




Cynhaliodd myfyrwyr 2il flwyddyn o Goleg Celf Abertawe Y Drindod Dewi Sant Arwerthiant Nadoligaidd lle'r oedd y myfyrwyr yn rhoi prawf ar fasnachu. Cawsant gipolwg gwych ar sut i siarad â chwsmeriaid, sut i brisio eu creadigaethau ac ati ac roeddent yn llawer mwy hyderus erbyn y prynhawn wrth 'werthu' eu heitemau i gwsmeriaid.

## Lansio Clwb Menter




Lansiwyd Clwb Menter misol PCYDDS lle ein siaradwr gwadd cyntaf oedd James Owen, entrepreneur a chyn-fyfyriwr (BA Gwneud Ffilmiau, 2021). Rhannodd ei stori o ddechrau ei fusnes i gyflogi pobl ac ennill gwobrau.

## Cwrs Dechrau Busnes Llawrydd a Busnes Newydd




Cynhaliodd PCYDDS 3 Chwrs Cychwyn Busnes Llawrydd a Busnes Newydd rhyngweithiol drwy gydol y flwyddyn yn bersonol ac ar-lein. Roedd yn trafod pynciau megis y rhai a restrir isod a lle gallent ffurfioli Cynfas Model Busnes wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer eu hanghenion a'u dyheadau unigol.


- Cymryd eich syniad a'i adeiladu yn gynnig cadarn i gwsmeriaid
- Deall sut i ddatblygu eich cynnyrch / gwasanaeth

- Prisio eich cynnyrch / gwasanaeth
- Ystyried datblygu ffrydiau refeniw
- Marchnata a phrisio eich cynnyrch neu wasanaeth
- Deall strwythurau cost
- Elfennau cyfreithiol masnachu gan gynnwys strwythurau cyfreithiol a threth
- Sut i redeg eich busnes eich hun, o gyllid i weinyddu, staff i adeiladau
- Tyfu eich busnes ac adeiladu busnes cynaliadwy ar gyfer y dyfodol

## Cyhoeddi 'Unpacking the 3Es – a national perspective' – Ionawr 2024

Ym mis Ionawr cyhoeddwyd ein 'Unpacking the 3Es' – a national perspective', a gomisiynwyd gan CCAUC, a olygwyd gan yr Athro Stuart Norton a'r Athro Andy Penaluna, sy'n cynnig cipolwg ar ein gwaith yn IICED. Ein ffocws yw ail-lunio'r ffordd y mae Cyflogadwyedd, Menter ac Entrepreneuriaeth (y 3E yn Saesneg) yn cael eu hystyried mewn addysg. Mewn cydweithrediad ag Ysgol Fusnes Caerfyrddin (CBS), credwn ein bod ni wedi mynd i'r afael â'r angen hwn yn arloesol trwy ein Tystysgrif Ôl-raddedig (PgCert) ar-lein mewn Sgiliau Menter sy'n mynd y tu hwnt i fodelau addysgol traddodiadol, gan alinio'n agos ag anghenion esblygol y farchnad swyddi a'r maes entrepreneuraidd.

## Symposiwm Bach i Entrepreneuriaid Gwneuthurwyr Dylunwyr




Cynhaliwyd y digwyddiad hwn ar gyfer pob myfyriwr creadigol, a daeth siaradwyr gwadd o wahanol gefndiroedd a oedd â gwybodaeth i'w rhannu, boed yn entrepreneuriaid, arbenigwyr, cyn-fyfyrwyr, tîm menter, Syniadau Mawr Cymru neu ddarlithwyr sy'n rhedeg busnes ochr yn ochr â'u gyrfa academaidd. Pynciau a chwestiynau a gafodd sylw gydol y dydd oedd.

- Ydy gweithio i chi'ch hun yn iawn i chi yn yrfa yn y dyfodol?
- Beth mae'n ei olygu i redeg busnes neu weithio yn weithiwr llawrydd? Gair i gall ac arweiniad
- Pa gymorth sydd ar gael i raddedigion drwy'r Brifysgol?
- At ba sefydliadau cymorth busnes ydw i'n edrych am help?
- Ble ydw i'n dechrau?

## Cynhadledd IEEC y DU – Belfast




Mynychodd Rebecca Jones Gynhadledd Addysgwyr Menter eleni a gynhaliwyd yn Belfast. Rhannodd Rebecca ei gwaith ymchwil hyd yma yn y gynhadledd a chyflwynodd weithdy, "Enabling Entrepreneurs to Thrive: Contribute to the discourse, do current practices enable entrepreneurs to align business growth with personal goals, values and business viability?" Mae'r gweithdy hwn yn archwilio'r mater hollbwysig, ond a anwybyddir yn aml, o alinio strategaethau twf busnes â nodau a gwerthoedd personol entrepreneuriaid. Gan dynnu sylw at bwysigrwydd yr aliniad hwn ar gyfer cynaliadwyedd busnes a llesiant y perchnogion, cynigiodd y sesiwn ganfyddiadau gwerthfawr ac offer ymarferol.

## Digwyddiadau Rhwydweithio Cwrdd a Chymysgu

Mewn cydweithrediad â'r Hyrwyddwyr Menter o Brifysgol Abertawe, cynhaliwyd digwyddiad Cwrdd a Chymysgu bob semester i helpu ein myfyrwyr entrepreneuraidd i adeiladu eu rhwydweithiau, datblygu sgiliau, cael sesiwn holi ac ateb gydag entrepreneuriaid o blith ein cyn-fyfyrwyr a dysgu am fentrau a chyllid busnesau newydd lleol yn y rhanbarth. Roedd y digwyddiadau hefyd yn cynnwys cydweithwyr o Syniadau Mawr Cymru i arddangos y cymorth sydd ar gael i oedolion ifanc yn y rhanbarth.






## Start-Up Expo Abertawe




Anogwyd dros 300 o bobl fusnes uchelgeisiol yn Abertawe (ynghyd â'n myfyrwyr) i fynychu digwyddiad rhad ac am ddim sy'n cael ei noddi a'i gefnogi gan PCYDDS i'w helpu i'w hysbrydoli, eu cefnogi a'u tywys. Cyflwynodd aelod o'r Tîm Menter, Dylan Williams-Evans, 8 gweithdy drwy gydol y dydd gan ganolbwyntio ar dwf cyflym.

Meddai'r Athro Ian Walsh, Profost campysau Abertawe a Chaerdydd PCYDDS: "Mae'r Drindod Dewi Sant yn falch o noddi'r digwyddiad arloesol hwn i gynorthwyo datblygiad busnes yn y rhanbarth.

"Nid yw'r galw am sgiliau entrepreneuraidd yn ein rhanbarth erioed wedi bod yn gryfach nac yn fwy angenrheidiol. Mae meddwl creadigol a hollbwysig, hyblygrwydd i ymateb i heriau a chyfleoedd, yn ogystal â deall busnes a chynaliadwyedd yn allweddol ac yn ein helpu ni i symud ymlaen yrfaoedd ein dysgwyr ym mha faes bynnag y maen nhw'n ei ddewis, ac mae sgiliau o'r fath wedi'u hymgorffori yn ein rhaglenni a'n prosiectau."

## Y Tîm Menter yn Cynorthwyo gyda Seremoni Wobrwyo Young Enterprise ar Gampws Llambed




Roedd Tîm Menter Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn falch iawn o gynorthwyo gyda Rowndiau Terfynol a Seremoni Wobrwyo Ranbarthol Young Enterprise, a gynhaliwyd ar gampws y Brifysgol yn Llambed. Mae'r cydweithrediad yn gam sylweddol wrth feithrin ysbryd entrepreneuraidd ymhlith unigolion ifanc a rhoi iddynt sgiliau hanfodol ar gyfer y dyfodol.

Mae Young Enterprise yn elusen genedlaethol sydd wedi ymrwymo i ysgogi pobl ifanc ledled y DU i lwyddo yn y byd gwaith sy'n datblygu. Gyda chymorth i rymuso pobl ifanc i ddarganfod, datblygu a dathlu eu sgiliau a'u potensial, mae Young Enterprise yn canolbwyntio ar leihau diweithdra ieuenctid a phontio'r bwlch sgiliau sy'n wynebu llawer o unigolion ifanc heddiw.

Roedd Rebecca Jones, Rheolwr Datblygu Menter yn PCYDDS yn rhan o'r panel beirniaid ar gyfer y digwyddiad. Meddai: "Erbyn heddiw mae menter yn sgil mor greiddiol ac roedd hi’n bleser gweld y bobl ifanc yn cofleidio arloesedd ac ochr ymarferol rhedeg busnes."

## Allbynnau PCYDDS ar gyfer 2023/24

| Mesur | Cyfanswm |
|---|---|
| Nifer y staff sy'n hyrwyddo entrepreneuriaeth yn eu hysgol academaidd neu adran | 14 |
| Buddsoddiad yn y Sector Preifat (PSI) i gynorthwyo Entrepreneuriaeth | £2,500 |
| Nifer y myfyrwyr a gyflwynwyd i entrepreneuriaeth ac arloesi | 1595 |
| Nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau i gynyddu gallu entrepreneuraidd (sgiliau, gwybodaeth a phrofiad) | 238 |
| Nifer y myfyrwyr a'r graddedigion unigryw sy'n derbyn cymorth i gymryd camau tuag at hunangyflogaeth neu ddechrau busnes (cymorth cyn cychwyn) | 160 |
| Nifer y busnesau myfyrwyr a graddedigion unigryw a ddechreuwyd (ar ôl dechrau). | 29 |

## I gloi

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ac yn parhau i feithrin diwylliant o fenter ac entrepreneuriaeth, gan gefnogi myfyrwyr, graddedigion diweddar, a staff i droi syniadau arloesol yn ganlyniadau diriaethol. Trwy gyfuniad o fentrau strategol, rhaglenni pwrpasol, a chyllid wedi'i dargedu, mae'r Brifysgol yn darparu cyfleoedd ymarferol i unigolion ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd, profi cysyniadau busnes newydd, a chael mynediad at fentora gan weithwyr proffesiynol profiadol.

Mae myfyrwyr yn elwa o weithdai, rhaglenni cychwyn, a grantiau sy'n eu galluogi i arbrofi gyda syniadau busnes mewn amgylchedd risg isel, tra bo graddedigion diweddar yn cael eu cefnogi i raddio mentrau y tu hwnt i leoliad y Brifysgol. Anogir staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau entrepreneuraidd trwy ddatblygiad proffesiynol, cyfnewid gwybodaeth, a phrosiectau cydweithredol, gan atgyfnerthu ecosystem arloesi fywiog ar draws y sefydliad.

Mae'r strwythur cymorth cynhwysfawr hwn wedi arwain at effeithiau mesuradwy, gan gynnwys lansio busnesau cychwynnol yn llwyddiannus, creu cyfleoedd cyflogaeth lleol, a gwella twf

economaidd y rhanbarth. Trwy roi i’w chymuned y wybodaeth, yr hyder a'r adnoddau i fynd ar drywydd mentrau entrepreneuraidd, mae'r Brifysgol yn dangos ei hymrwymiad parhaus i yrru arloesedd, meithrin creadigrwydd, a meithrin meddylfryd mentrus sydd o fudd i unigolion a'r gymdeithas ehangach.